Y Pwyllgor Cyllid
Finance Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Tachwedd 2013

**Gwahoddiad i roi tystiolaeth - Cyllid Cymru**

Mae'r Grŵp Cyllid Cymru yn is-gwmni sy'n berchen yn gyfan gwbl i Lywodraeth Cymru ac yn un o'r cwmnïau buddsoddi mewn busnesau bach a chanolig mwyaf yn y DU. Mae'r Grŵp yn rheoli cyllid o bron i £400 miliwn ac mae'n cynnwys rheolwyr y gronfa, Cyllid Cymru, a FW Capital. Mae Xénos, rhwydwaith angel busnes Cymru, hefyd yn rhan o'r Grŵp.

Gall Cyllid Cymru ddarparu buddsoddiadau dyled, mesanîn ac ecwiti hyd at £2 filiwn ar gyfer pob cam (cam cynnar, cyfalaf datblygu, yn ogystal â dilyniant a chaffael) Mae FW Capital yn rheoli cyllid yn Nyffryn Tees ac yng ngogledd-ddwyrain a gogledd-orllewin Lloegr sydd â chyfanswm gwerth o £75 miliwn.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal ymchwiliad byr i edrych ar y modd y mae Cyllid Cymru yn gweithredu ar hyn o bryd, a'i rôl yn y dyfodol, a byddem yn croesawu tystiolaeth ar y mater hwn.

**Cylch gorchwyl yr ymchwiliad**

Ystyried:

- y canlyniadau a gyflawnir gan Gyllid Cymru, ac a yw'r rheini yn werth yr arian;
- a yw strwythur corfforaethol cyfredol Cyllid Cymru yn ateb y diben, gan ystyried yn wrthrychol yr effaith o fynd ar drywydd unrhyw fodelau gweithredu amgen eraill;
- y modd y mae gweithgareddau Cyllid Cymru yn cyfrannu at ddull gweithredu cyffredinol Llywodraeth Cymru o safbwynt datblygu economaidd yng Nghymru.

Ffon / Tel: 029 20 898120
E-bost / E-mail: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

**Eich Barn**

Hoffai'r Pwyllgor gael eich barn ar y meysydd a ganlyn:

- **Rôl a phwrpas strategol Cyllid Cymru** - a ddylai fod yn hunangyllidol drwy weithredu yn ôl egwyddorion buddsoddwyr masnachol, neu a ddylai'n bennaf gynorthwyo blaenoriaethau datblygu economaidd Llywodraeth Cymru?
- **Perfformiad presennol** - a yw Cyllid Cymru wedi sicrhau'r canlyniadau priodol mewn meysydd fel swyddi wedi'u creu/diogelu, cymorth i fusnesau, enillion ar fuddsoddiad, effaith economaidd, buddsoddiad sector preifat cysylltiedig ag ati?
- **Cyfraddau llog a godir** - a ydynt yn briodol o'u cymharu â'r cyfraddau a godir yn y sector preifat a chan ffynonellau eraill, ac a ydynt yn destun gofynion Cymorth Gwladwriaethol?
- **Gwerth am arian** - a yw Cyllid Cymru yn darparu gwerth am arian i Lywodraeth Cymru? Sut y mae'n cymharu â dulliau eraill o ymyrryd a darparu cefnogaeth gyhoeddus?
- **Trefniadau ar gyfer ffynonellau cyllid yn y dyfodol** - pa ddulliau cyllido posibl y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried ar gyfer Cyllid Cymru (gan gynnwys ffynonellau fel cronfeydd Ewropeaidd a Banc Buddsoddi Ewrop)?
- Mae'r adroddiad Cyfnod 2 yn cynnig y byddai'n llai dryslyd i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru pe bai'r holl ffynonellau cyllid, gan gynnwys rhaglenni'r DU, wedi'u cyfuno. A fyddai o fudd i ddatganoli cyfran o raglenni cymorth cyhoeddus y DU i'w gweinyddu yng Nghymru?
- **Strwythur corfforaethol Cyllid Cymru** - a yw'r strwythur presennol yn addas i'r diben a pha fodelau eraill y dylid eu hystyried o bosibl?
- **Gweithgareddau Grŵp Cyllid Cymru yng ngogledd Lloegr** - a ydynt o fydd i'r economi a busnesau bach a chanolig yng Nghymru?

**Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor**

Rydym yn eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor Cyllid, gan ddefnyddio'r cyfeiriad a nodir uchod, erbyn **dydd Gwener 10 Ionawr 2014**.

Os yw'n bosibl, anfonwch eich ymateb drwy e-bost i PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk erbyn **dydd Gwener 10 Ionawr 2014**.

**Datgelu Gwybodaeth**

*Dylai tystion fod yn ymwybodol y caiff unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir i'r Pwyllgor ei thrin fel eiddo'r Pwyllgor.*

*Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisïau / cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, yn unol â'u polisïau gwybodaeth gyhoeddus.*

*Bwriad y Pwyllgor yw cyhoeddi tystiolaeth ysgrifenedig ar ei wefan, ac mae'n bosibl y bydd y dystiolaeth hon yn cael ei chyhoeddi gyda'r adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n ddata personol yn ei farn ef, ac eithrio sylwadau neu ddata personol sy'n berthnasol i'ch statws fel awdur y dystiolaeth a'r statws yr ydych yn ei ddefnyddio, os o gwbl, i gyflwyno'r dystiolaeth (er enghraifft, teitl eich swydd).*

*Fodd bynnag, os yw cais am wybodaeth (gan gynnwys data personol) yn cael ei gyflwyno o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych, neu ran ohono. Gall hyn gynnwys data personol a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi (yn unol â'r drefn a ddisgrifir uchod).*

*Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, neu os nad ydych am ddatgelu'r ffaith mai chi yw awdur y dystiolaeth dan sylw, mae'n rhaid ichi nodi hyn yn glir, a'ch cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.*

Mae rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Cyllid ar gael yma.

Yn gywir



**Jocelyn Davies**
**Cadeirydd**
**Y Pwyllgor Cyllid**